



Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2020-2021

1 Awst 2020 – 31 Gorffennaf 2021

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Crynodeb Gweithredol	2
3. Monitro ac Gwerthuso	5
3.1 Cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	6
3.2 Cydymffurfio â'r Safonau Llundio Polisi	7
3.3 Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredol	8
3.4 Cydymffurfio â'r Safonau Cadw Cofnodion a Safonau Atodol	8
4. Sgiliau Cymraeg Staff	8
5. Hyfforddiant	9
6. Recriwtio	9
7. Cwynion	10
8. Casgliadau ac Argymhellion	10

1. Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad blynyddol hwn yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2016. Mae'n rhoi trosolwg o gydymffurfiaeth Coleg Sir Benfro â'i Safonau Iaith Gymraeg ar gyfer blwyddyn academiaidd 2020 – 2021 ac yn adrodd ar y meysydd canlynol, yn unol â gofynion Comisiynydd y Gymraeg:

- sut mae'r Coleg wedi cydymffurfio â'i Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Safonau Llundio Polisi a'r Safonau Gweithredol yn ystod y cyfnod adrodd
- nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg
- nifer a chanran y staff a fynychodd hyfforddiant penodol drwy gyfrwng y Gymraeg
- nifer y swyddi newydd a gwag a aseswyd bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, ddim yn hanfodol, yr angen i ddysgu Cymraeg
- nifer y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â'r Safonau

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Dîm Datblygu'r Gymraeg ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan y Coleg ac

mae ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, o dan [Safonau'r Gymraeg](#).

Mae fersiwn lawn o Safonau'r Gymraeg y Coleg hefyd i'w cael ar y safle hwn, o dan [Hysbysiad Cydymffurfio](#) (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011).

2. Crynodeb Gweithredol

Fel yn y flwyddyn flaenorol, roedd blwyddyn academiaidd 2020-21 hefyd yn flwyddyn anodd iawn, gyda phandemig Covid-19 yn parhau i gyflwyno heriau sylweddol. Parhaodd y Coleg â'r dull dysgu cyfunol wrth gyflwyno'r cwricwlwm, h.y. cymysgedd o ddarpariaeth wyneb yn wyneb ac ar-lein; dull hybrid o ymdrin â phatrymau gweithio staff gyda rotas gweithio o bell/ar y campws ar waith er mwyn cyfyngu ar y niferoedd ar y safle. Cynyddodd achosion covid yn gyflym tua diwedd Tymor 1 gan arwain at gyfnod clo cenedlaethol arall o fis Rhagfyr tan ddiwedd Tymor 2, a gorfodwyd y Coleg i weithredu o bell yn ystod y cyfnod hwn.

Effeithiodd y cyfyngiadau a osodwyd gan y pandemig yn aruthrol ar ddigwyddiadau cyfoethogi dysgwyr/staff y Coleg. Nid oedd modd i'r digwyddiadau Cymraeg a diwylliannol blynyddol, fel Diwrnod Shwmae, Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi fynd yn eu blaenau ac nid oedd modd gwahodd siaradwyr gwadd allanol fel rhan o weithgarwch hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod arferol. Nid oedd gweithgaredd yr Urdd wedi gallu mynd yn ei flaen gyda dysgwyr ac nid oedden nhw'n gallu cystadlu yng nghystadlaethau Eisteddfod yr Urdd 2021. Fodd bynnag, cafodd y Coleg newyddion da ym mis Hydref 2020 fod carfan 19/20 o ddysgwyr Cyfryngau Creadigol wedi cael llwyddiant mawr unwaith eto yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2020, yn y gystadleuaeth Creu Ap ar gyfer y ddau gategori, dan 19 a dan 25, gan ennill 2 fedal Aur, 1 medal Arian a 2 fedal Efydd.

Yn sicr, cafodd y cyfyngiadau Covid a'r cyfyngiadau clo effaith fawr ar y momentwm y mae gweithgarwch hyrwyddo'r Gymraeg yn ei greu fel arfer. Y gobaith yw y bydd y digwyddiadau hyn yn gallu mynd eu blaen yn 21/22. Mae'r Coleg yn cydnabod yn llawn yr effaith gadarnhaol y gall y digwyddiadau hyn ei chael ar ymgysylltiad dysgwyr a staff â'r Gymraeg ac yn aml iawn mae'n arwain at ddiddordeb o'r newydd yn iaith a diwylliant Cymru ac yn rhoi hwb i'r hyder wrth ddefnyddio'r iaith.

Drwy gydol 20/21, mabwysiadodd y Coleg ddull "busnes fel arfer". Atgoffwyd y staff i barhau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a chynnig dewis iaith ym mhob agwedd ar ddarpariaeth y Coleg. Parhaodd i godi ymwybyddiaeth o'r Safonau drwy'r diweddariadau a ddarparwyd yng nghyfathrebu digidol y Pennaeth; mewn cyfarfodydd timau rheoli; cyfarfodydd timau adrannol a thrwy gynnwys gofynion y Gymraeg mewn sesiynau hyfforddi staff corfforaethol y Coleg a sesiynau sefydlu staff newydd. Parhaodd y Tîm Datblygu'r Gymraeg, a oedd yn cynnwys yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd, Swyddog Datblygu'r Gymraeg a'r Tîwtor Cymorth Dwyieithog i ddarparu cymorth Cymraeg ar-lein ac ar y campws i gyfadrannau a thimau adrannol. Mynychodd yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd a'r Swyddog Datblygu gyfarfodydd Clwstwr Cwricwlwm; Clwstwr Dysgu Seiliedig ar Waith a chyfarfodydd timau rheoli cyfadrannol yn rheolaidd, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion yn ymwneud â'r Safonau neu ddatblygiadau cwricwlwm cyfrwng Cymraeg/dwyieithog.

Mae monitro a gwerthuso perfformiad y Coleg yn erbyn y Safonau wedi'i gynnwys yn Adran 3 [tudalen 5].

Er gwaethaf blwyddyn hynod heriol arall, cafwyd sawl canlyniad sydd yn werth nodi mewn perthynas â'r Gymraeg, fel y crynhoir isod:

▪ **Cyflwyno'r cwricwlwm**

- Drwy strategaeth barhaus y Coleg o integreiddio'r Gymraeg i Raglenni Ardal Dysgwyr, derbyniodd 77 grŵp naill ai fewnbynnau Cymraeg 5/8/10/15 awr (52 grŵp yn 19/20), cyfanswm o 615.25 awr o Gymraeg (380 awr yn 19/20); derbyniodd 44 grŵp fewnbynnau 5 awr; derbyniodd 33 grŵp rhwng 8 – 15 awr o fewnbynnau. Roedd yr addysgu a'r dysgu yn defnyddio dull cyfunol, gyda rhai elfennau a grwpiau'n cael eu haddysgu wyneb yn wyneb a rhai'n cael eu cyflwyno ar lwyfan addysgu ar-lein BBB y Coleg. Arweiniodd y gweithgaredd hwn at 907 o ddysgwyr yn cwblhau asesiadau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog; cynnydd sylweddol ar y 584 y llynedd a'r nifer uchaf hyd yma. Roedd hyn yn cynnwys 158 o asesiadau'n cael eu cwblhau o fewn y prif gymhwyster a 749 yn unedau Dwyieithrwydd ar gyfer y Gweithle. Roedd codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, hybu'r Gymraeg, rhoi cyfle i ddysgwyr ddefnyddio'u Cymraeg yn rhan fawr o'r holl weithgarwch dysgu hwn.
- Datblygu'r cwricwlwm 14 – 16: drwy weithio mewn partneriaeth, cytunwyd ar gynlluniau i ddarparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn Peirianeg i ddisgyblion Blwyddyn 10 Ysgol Caer Elen ar gampws y Coleg. Mae'r niferoedd wedi rhagori ar ddisgwyliadau, gydag 20 o ddisgyblion yn ymuno â'r rhaglen alwedigaethol 2 flynedd hon a fydd yn dechrau ym mis Medi 2021.

▪ **Mentrau Iaith Gymraeg**

- Sicrhawyd cyllid ar gyfer 3 Thiwtor Cymorth Dwyieithog ychwanegol yn y meysydd blaenoriaeth Gwasanaethau Cyhoeddus, Gofal Plant a Dysgu Seiliedig ar Waith (Iechyd a Gofal Plant) gan Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ar gyfer blwyddyn academiaidd 21/22. Roedd hyn yn dilyn llwyddiant rôl Tiwtor Cymorth Dwyieithog mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a oedd yn darparu mwy o ddarpariaeth a chymorth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog i ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg ac yn datblygu sgiliau Cymraeg pob dysgwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cydnabuwyd y fenter hon fel arfer da gan Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chafodd y Tiwtor Cymorth Dwyieithog sylw yn ei gylchlythyr cenedlaethol, gan hyrwyddo'r model addysgu a dysgu dwyieithog hwn.
- Parhau â'r fenter Llysgenhadon y Gymraeg, gyda 3 wedi'u hariannu gan Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac 1 gan y Coleg, yn cefnogi hyrwyddo'r Gymraeg yn ddigidol ac ar y campws.
- Galluogodd y Gwobrau Cymraeg, gyda chefnogaeth cyllid Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, i'r Coleg sefydlu gwobrau cymhelliant i ddysgwyr sy'n cwblhau 50% o'u cymhwyster yn y Gymraeg. Cyflwynwyd y dyfarniad 20/21 gwerth £150 i ddysgwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3 a chyflwynwyd gwobr cymhelliant hefyd i ddysgwr Gofal Iechyd dysgu seiliedig ar waith.
- Derbyniodd y Coleg gyllid gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu, treialu a chreu cwrs digidol newydd 'Sgiliau Proffesiynol: Dwyieithrwydd ar gyfer y Gweithle'.
- Parhaodd y cynllun e-fathodynau digidol i fod yn effeithiol gyda dysgwyr. Mabwysiadwyd y cynllun hwn gan Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fel y dull dewisol o gydnabod datblygiad sgiliau iaith Gymraeg ac mae'n cael ei gyflwyno i bob coleg AB yng Nghymru, gyda'r Hyrwyddwr Dwyieithrwydd yn rhoi cymorth a chyngor i golegau eraill wrth iddynt fabwysiadu'r cynllun.
- Cyfrannodd yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd mewn gweminar genedlaethol a drefnwyd gan Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ar y thema 'Trosi Myfyrwyr' – sut i sicrhau bod dysgwyr yn

parhau ag addysg cyfrwng Cymraeg ôl-16.

Yn amlwg, mae'r Coleg wedi parhau i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gyflwynir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn enwedig eu cyfleoedd ariannu. Mae'r cyllid hwn yn hollbwysig ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr wrth i'r Coleg ymdrechu i ddatblygu ei ddarpariaeth cwricwlwm dwyieithog a chynyddu'r cynnig cyfrwng Cymraeg i'w ddysgwyr Cymraeg eu hiaith. Mae'r Coleg hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfeiriad strategol, y cyngor a'r arweiniad y mae'r Coleg Cymraeg yn ei ddarparu ac yn ystyried y Coleg Cymraeg yn un o'i bartneriaid allweddol.

▪ **Cymraeg Gwaith**

Sicrhodd y Coleg gyllid gan Colegau Cymru i barhau â'r cynllun cenedlaethol Cymraeg Gwaith. Roedd y cyllid hwn yn galluogi'r Coleg i ddarparu hyfforddiant Cymraeg cynhwysfawr i'w staff ac roedd yn gallu cyflogi Tiwtor Cymraeg Gwaith 3 diwrnod yr wythnos, drwy drefniant is-gontractio gyda Dysgu Cymraeg Sir Benfro Cyngor Sir Penfro. Cofrestrodd cyfanswm o 18 aelod o staff â chysylltiad uniongyrchol â dysgwyr ar Cymraeg Gwaith, sy'n ostyngiad o 25 yn y flwyddyn flaenorol. Derbyniodd y staff hyn sesiynau mentora un-i-un wythnosol drwy lwyfannau digidol, gan gyflawni dros 120 awr o hyfforddiant iaith Gymraeg, yn canolbwyntio ar ddatblygu eu Cymraeg o fewn eu rolau yn yr amgylchedd dysgu.

Mae enghreifftiau o lwyddiant Cymraeg Gwaith yn cynnwys: prif dderbynydd y Coleg yn gallu darparu gwasanaeth cwsmer Cymraeg; darlithwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth yn rheolaidd; cyfranogwyr Cymraeg Gwaith yn mynd ati i ddefnyddio eu Cymraeg gyfarch/cael sgysiau Cymraeg estynedig gyda dysgwyr a chydweithwyr. Cafodd y gyfres 'Pump mewn Pump' o glipiau fideo You Tube a gynhyrchwyd gan y Tiwtor Cymraeg Gwaith eu cydnabod fel arfer da gan y prosiect Cymraeg Gwaith cenedlaethol, gan ddangos ymdrech y Coleg i ymestyn effaith y prosiect y tu hwnt i staff sy'n mynychu Cymraeg Gwaith ac arbrofi gyda ffyrdd newydd o ymgysylltu â staff.

Mae Cymraeg Gwaith bellach yn ei bumed flwyddyn. Mae wedi bod yn hanfodol yng ngwaith y Coleg o ddatblygu sgiliau Cymraeg ei staff ac mae'n parhau i fod yn hanfodol. Mae'n profi i fod yn boblogaidd iawn gyda dros 30+ o staff yn cofrestru ar gyfer 21/22.

▪ **Cymorth Cymraeg**

Cefnogwyd y staff gan Dîm Datblygu'r Gymraeg i gynyddu darpariaeth, cyfleoedd a deunyddiau addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg/dwyieithog i ddysgwyr. Mae Tîm Datblygu'r Gymraeg wedi croesawu technoleg ddigidol i gefnogi staff a dysgwyr, rhannu gwybodaeth drwy dudalen Facebook, creu sianel YouTube a dechrau cyflwyno rhai o'r mewnbynnau Cymraeg 5-15 awr drwy iPads.

Cyfrannodd y gweithgaredd a'r gwaith datblygu hwn yn sylweddol tuag at ehangu darpariaeth a chyfleoedd Cymraeg/dwyieithog y Coleg. Wrth wraidd y gwaith datblygu hwn y mae prif egwyddorion y Safonau sydd yn sicrhau:

- nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn gwasanaethau a gweithrediadau'r Coleg ac;
- bod aelodau o'r cyhoedd, dysgwyr a staff yn gallu rhyngweithio â'r Coleg yn eu dewis iaith.

3. Monitro a Gwerthuso

Mae Grŵp Llywio'r Gymraeg – Safonau y Coleg yn goruchwyllo'r gwaith o fonitro cydymffurfiaeth â'r Safonau a hynny drwy ei gyfarfodydd tymhorol sydd yn cael eu cadeirio gan y Pennaeth. Mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys cynrychiolaeth o'r holl adrannau swyddogaethol, yn cynnwys: y Pennaeth; Pennaeth Cynorthwyol – Gwasanaethau Masnachol a Chleientiaid; Cyfarwyddwr Adnoddau; Adnoddau Dynol; Marchnata; Ystadau; Ansawdd; MIS; Masnachol; cynrychiolaeth y Cyfadrannau academaidd; yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd a Swyddog Datblygu'r Gymraeg. Adroddir ar faterion a datblygiadau yn y cyfarfodydd hyn a chaiff y camau gweithredu eu cytuno. Maen nhw hefyd yn caniatáu rhannu datrysiadau ac arfer da yn ymwneud â chydymffurfiaeth a hybu'r Gymraeg.

Ers 2019/20, mae cyfadrannau ac adrannau cymorth busnes wedi cael cynlluniau gweithredu'r Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys y Safonau priodol a hefyd meysydd allweddol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm dwyieithog, yn unol â strategaeth datblygu cwricwlwm dwyieithog y Coleg a chynllun gweithredu addysg cyfrwng Cymraeg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer AB a Phrentisiaethau. Cafodd y cynlluniau gweithredu hyn eu hadolygu a'u monitro yng nghyfarfodydd y Grŵp Llywio – Safonau yn ystod 20/21 lle'r oedd yn ofynnol i gyfadrannau ac adrannau gyflwyno diweddariadau am gydymffurfiaeth. Cymhwyswyd system RAG i'r cynlluniau gweithredu hyn er mwyn tynnu sylw at feysydd y mae angen rhoi sylw brys iddynt. Roedd cyfanswm o 39 o gamau gweithredu, ac roedd 28 ohonynt yn wyrdd (cydymffurfio); 8 orên (angen ychydig o weithredu pellach ar gyfer cydymffurfio) a 3 coch (angen camau gweithredu pellach ac helaeth ar gyfer cydymffurfio). Roedd y tri cham gweithredu yn ymwneud â: (i) datblygu tudalennau Cymraeg ar fewnrwyd y Coleg a (ii) datblygu hyfforddiant corfforaethol cyfrwng Cymraeg i staff fel y nodir yn y Safonau. Mae gwaith datblygu ar fewnrwyd y Coleg yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau mwy o bresenoldeb y Gymraeg ar y safle hwn. Gall y staff ddewis eu dewis iaith ar gyfer rhyngwyneb a bwydlenni'r fewnrwyd. Mae nifer o ffurflenni, yn enwedig y ffurflenni Cyllid a ffurflenni Adnoddau Dynol ar gael yn Gymraeg. Mae Tîm Datblygu'r Gymraeg wedi datblygu teilsen Gymraeg benodol ar y fewnrwyd sy'n darparu deunydd cymorth i staff i'w defnyddio. Bydd y camau gweithredu hyn yn parhau i gael eu monitro yn 21/22. Bydd y Coleg yn ymchwilio i gyfleoedd rhannu ar y cyd â sefydliadau eraill yn ymwneud ag hyfforddiant/adnoddau hyfforddi corfforaethol cyfrwng Cymraeg fel datrysiad posibl ar gyfer y Safon hwn.

Mae'r cynlluniau gweithredu Cymraeg hyn wedi cael eu cydnabod fel arfer da gan Swyddfa'r Comisiynydd Iaith yn eu cyfarfod adborth blynyddol. Maent: (i) yn darparu tystiolaeth glir ynghylch sut mae timau'n bodloni gofynion y Safonau; (ii) yn cefnogi dull mwy cadarn o adrodd ar gydymffurfiaeth; (iii) yn helpu i nodi lle mae arfer da yn digwydd ac unrhyw feysydd i'w gwella; (iv) yn siapio dull y Coleg o gyflawni gofynion y Safonau a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach.

Bydd y Coleg yn parhau i fonitro'r Safonau yn y modd hwn gyda chynlluniau gweithredu'n cael eu cymeradwyo gan Grŵp y Llywio – Safonau.

Wrth i gyfadrannau ac adrannau gyrraedd cydymffurfiaeth lawn, bydd cynlluniau gweithredu'r dyfodol yn dod yn fwy rhagweithiol ac uchelgeisiol yn eu hymagwedd. Byddant yn adlewyrchu'r arferion gorau a rennir gan Gomisiynydd y Gymraeg, gyda'r nod o weld cynnydd gwirioneddol yn y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau a darpariaeth Gymraeg.

Profodd yr archwiliad mewnol ar y Safonau a gynhaliwyd ar draws y Coleg ym mis Tachwedd 2019 yn ffordd effeithiol arall o fesur cydymffurfiaeth, gan dynnu sylw at arfer da a welwyd a materion

y mae angen rhoi sylw iddynt. Y bwriad oedd ailadrodd hyn yn 20/21, fodd bynnag, cytunwyd i ymgymryd â'r ymarfer hwn pan fydd yr amodau'n llai heriol ac yn sefydlogi.

Mae effeithiolrwydd y Gymraeg hefyd yn cael ei arfarnu fel rhan o brosesau ansawdd y Coleg yn y cylch ansawdd tair blynedd, sydd yn cynnwys teithiau dysgu, arsylwadau, arfarniadau, gweithgarwch Llais y Dysgwr a sicrhau ansawdd.

Y Tîm Datblygu'r Gymraeg sy'n parhau i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg o ddydd i ddydd, a reolir gan Bennaeth Cyfadran Lefel-A a Sgiliau. Mae rôl yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu cyfeiriad strategol a datblygu darpariaeth a chymorth cwricwlwm cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Mae'r Hyrwyddwr Dwyieithrwydd hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i sicrhau bod blaenoriaethau a gweithgarwch Cymraeg y Coleg yn cyd-fynd â strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg 'Tuag at 2050' y Coleg Cymraeg. Mae rôl Swyddog Datblygu'r Gymraeg yn canolbwyntio ar gefnogi gweithredu a chydymffurfio â'r Safonau a darparu gwasanaeth cyfieithu i dimau'r Coleg.

Mae'r Coleg wedi cynnal perthynas waith dda gyda Swyddog Cyswllt Comisiynydd y Gymraeg drwy'r cyfarfodydd adborth blynyddol; cymryd rhan ym mhroses ymgynghori Cod Ymarfer y Comisiynydd ac astudiaeth thematig o effaith Covid-19 ar wasanaethau Cymraeg sefydliadau; presenoldeb mewn gweithdai rhannu arfer gorau. Bydd yr arfer gorau a gesglir o'r gweithgaredd hwn yn cael ei ymgorffori ymhellach wrth weithredu'r Safonau wrth i'r Coleg barhau i wella ei wasanaethau Cymraeg.

3.1 Cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Fel y nodwyd yn adran 1, yn ystod 2020/21 parhawyd i godi ymwybyddiaeth staff o'u cyfrifoldebau o dan y Safonau a'r angen i fod yn rhagweithiol wrth gynnig dewis iaith wrth ddarparu gwasanaethau. Diweddarwyd gwybodaeth Safonau'r Gymraeg ar gyfer staff newydd ac roedd yn cynnwys canllawiau ar sut i ddelio â gohebiaeth, galwadau ffôn, cyfarfodydd, deunyddiau cyhoeddusrwydd, hysbysiadau ac arwyddion, hawliau dysgwyr a staff yn unol â'r Safonau. Rhoddwyd gwybod i'r staff hefyd am gymorth Cymraeg y Coleg ar gael drwy'r Tîm Datblygu'r Gymraeg – cymorth cyfieithu, cyngor ac arweiniad i ddatblygu darpariaeth ddwyieithog a chymorth datblygu sgiliau iaith Gymraeg.

Mewn perthynas â'r Safonau sy'n ymwneud â galwadau ffôn, mae prif switsfwrdd awtomataidd y Coleg yn cynnig dewis iaith ac mae negeseuon ateb ffôn yn ddwyieithog. Mae Derbynnydd y Coleg, sy'n ddysgwr Cymraeg, yn parhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg o dan y cynllun Cymraeg Gwaith ac mae bellach yn gallu darparu gwasanaeth dwyieithog.

O ran y Safonau sy'n ymwneud â chyfarfodydd, cyfarfodydd cyhoeddus a digwyddiadau, ni chafwyd unrhyw geisiadau am gyfarfodydd cyfrwng Cymraeg yn ystod 20/21 ac ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus na darlithoedd cyhoeddus. Roedd nosweithiau agored y Coleg, gan gynnwys ei ddigwyddiadau agored rhithwir, yn cynnwys cyflwyniadau dwyieithog a chroesawyd y rhai a oedd yn bresennol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y digwyddiadau hyn. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda sefydliadau Cymraeg eu hiaith fel Menter Iaith Sir Benfro, Dysgu Cymraeg Sir Benfro, Mudiad Meithrin, yr Urdd, Sgiliaith, Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Rhwydwaith Hyrwyddwyr Dwyieithog NTFW, Arweinydd Prosiect Cymraeg Gwaith Colegau Cymru i gyd yn Gymraeg. Cynhaliwyd cyfarfodydd mewnol Tîm Datblygu'r Gymraeg a'u cyfarfodydd gyda staff eraill sy'n siarad Cymraeg yn Gymraeg hefyd.

Mae'r Safonau sy'n ymwneud â deunyddiau marchnata a dogfennau cyhoedduswydd corfforaethol yn cydymffurfio ac maent ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae gwefan y Coleg yn ddwyieithog, fodd bynnag, yn cael ei hailadeiladu ar hyn o bryd ac mae'r Swyddog Datblygu yn gweithio'n agos gyda'r adran Farchnata i sicrhau bod cyfieithiadau'n gywir a bod pob tudalen ar gael yn Gymraeg. Bydd hyrwyddo'r Gymraeg yn cael ei wella o dan y gwaith datblygu hwn, fel yr argymhellwyd yn yr adolygiad adborth blynyddol gyda Swyddog Cyswllt y Comisiynydd ym mis Hydref 2020. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog; mae'r gwiriadau'n parhau i sicrhau bod negeseuon yn cydymffurfio, a bod cymorth yn cael ei roi i dimau. Mae gan Dîm Datblygu'r Gymraeg dudalen Facebook Cymraeg, 'Cymraeg – Coleg Sir Benfro', ac fe'i defnyddir i hyrwyddo darpariaeth a gweithgareddau Cymraeg y Coleg ac i annog rhyngweithio digidol Cymraeg.

Mae'r arwyddion yn ddwyieithog; mae'r holl wybodaeth ar sgriniau 'mawr' y Coleg yn ddwyieithog ac er bod nifer cynyddol o bosteri a gwybodaeth ar hysbysfyrddau yn ddwyieithog, mae hyn yn cael ei fonitro ac mae'n parhau i fod yn gam gweithredu yn y cynlluniau gweithredu cyfadrannau ac adrannol.

Mae rhaglen diwrnod hyfforddiant 'Aspire' y Coleg ar gyfer yr holl staff yn ddwyieithog ac roedd gweithgaredd iechyd a lles Aspire yn 20/21 i gyd yn ddwyieithog, gan gynnwys blog dwyieithog a negeseuon Twitter dwyieithog yn hyrwyddo gweithgarwch lles.

Mae hyrwyddo'r Safonau a'r Gymraeg yn gyffredinol wedi bod yn barhaus. Mae hawliau dysgwyr a'r ddarpariaeth Gymraeg wedi'u hyrwyddo yn nigwyddiadau'r Coleg, h.y. diwrnodau/nosweithiau agored; o fewn y broses ymgeisio a chyfweld, cofrestru a'r rhaglen sefydlu; ar dudalen Facebook 'Cymraeg – Coleg Sir Benfro'. Hyrwyddwyd y Safonau a hawliau dysgwyr hefyd drwy ymgyrch genedlaethol Hawliau'r Gymraeg 'Mae Gen i Hawl' y Comisiynydd a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2020. Cynhyrchwyd fideo hyrwyddo'r Coleg a gafodd ei uwchlwytho ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd yn cynnwys y Pennaeth, Llysgenhadon y Gymraeg, staff sy'n siarad Cymraeg, staff ar y cynllun Cymraeg Gwaith, grwpiau o ddysgwyr Gofal Plant a Pheirianeg yn hyrwyddo gwahanol hawliau Cymraeg o dan y Safonau a hefyd y ddarpariaeth Gymraeg a gynigir yn y Coleg.

Dosbarthwyd siartiau llif cam wrth gam i'r holl staff cyn dechrau'r flwyddyn academaidd newydd 20/21, yn cynghori timau i barhau i fod yn rhagweithiol a chael y sgwrs gyda dysgwyr sy'n siarad Cymraeg ynghylch tiwtorialau, asesu a chyfluoedd allgyrsiol. Yn 20/21, nododd 9 o ddysgwyr ar y ffurflen gofrestru yr hoffent gael tiwtorialau yn Gymraeg. Dilynwyd y rhain i fyny gyda'r dysgwyr, gyda Thîm Datblygu'r Gymraeg yn cynnig hwyluso unrhyw drefniadau yn absenoldeb staff sy'n siarad Cymraeg o fewn timau addysgu. Mae'r Coleg yn sylweddoli bod ganddo fwy o waith i'w wneud yn y maes hwn i sicrhau bod dewis iaith Gymraeg y dysgwr mewn tiwtorialau yn cael ei gyflawni a bydd yn parhau i adolygu'r broses drwy gynlluniau gweithredu'r cyfadrannau.

3.2 Cydymffurfio â'r Safonau Lluo Polisi

Rhwng 1 Awst 2020 a 31 Gorffennaf 2021, cafodd 17 o bolisiau naill ai eu llunio neu eu hadolygu. Roedd yn ofynnol i reolwyr oedd yn gyfrifol am y polisiau hyn lenwi ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y Coleg a oedd yn cynnwys y Gymraeg i sicrhau: nad yw'r polisi'n cael unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg; nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a bod cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r holl bolisiau'n cynnwys adran Gymraeg gorfforaethol sy'n cadarnhau ymrwymiad y Coleg i ddarparu dewis iaith o fewn y gwasanaethau y mae'n eu darparu.

3.3 Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredol

Mae'r Safonau Gweithredol yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar y berthynas rhwng y Coleg a'i staff (yn cynnwys yn ystod recriwtio a phenodi). Mae'r Safonau hyn yn cynnwys annog a chynorthwyo staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg fel rhan o'u gwaith o ddydd i ddydd a rhoi cymorth i staff wella a datblygu eu Cymraeg.

Fel y nodwyd uchod, atgoffwyd staff o'u cyfrifoldebau o dan y Safonau mewn cyfathrebu/briffio, cyfarfodydd tîm ac mewn hyfforddiant iaith Gymraeg, yn unol â Pholisi Defnyddio'r Gymraeg yn Fewnol y Coleg. Gall staff gael mynediad at y polisi hwn ar y Porth Staff (mewnwyd y Coleg), ac mae'n darparu canllawiau ar sut i ddefnyddio a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y sefydliad, yn cynnwys anogaeth weithredol i ddefnyddio'r iaith mewn gweithgarwch bob dydd a geiriad safonol yn hyrwyddo'r Gymraeg i'w gynnwys mewn gwahanol fathau o gyfathrebiadau. Gall staff gael gafael ar gymorth, cyngor ac arweiniad cymraeg gan Dîm Datblygu'r Gymraeg a Thiwtor Cymorth Dwyieithog, gyda cheisiadau cyfieithu yn cael eu cyfeirio at y Swyddog Datblygu.

O dan ofynion y Safonau Gweithredol, parhaodd yr adran Adnoddau Dynol i gofnodi dewis iaith mewn perthynas â staff yn derbyn dogfennau a gohebiaeth a gyfeiriwyd atynt yn bersonol. Cynhaliwyd llond llaw o arfarniadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod 20/21. Dywedodd sawl rheolwr eu bod wedi trafod a nodi anghenion a thargedau hyfforddiant iaith Gymraeg gyda'u staff er mwyn cefnogi gweithredu eu cynlluniau adrannol a chyfadranol. Bydd yr arfer hwn yn cael ei ymestyn ymhellach i bob tîm yn 21/22 er mwyn sicrhau canlyniadau mesuradwy.

3.4 Cydymffurfio â'r Safonau Cadw Cofnodion a'r Safonau Atodol

Mae'r Safonau hyn yn ymwneud â sicrhau bod data'n cael ei gadw ac adrodd arno yn unol â gofynion y Safonau i ddangos cydymffurfiaeth y Coleg. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu'r adroddiad hwn. Cedwir cofnodion sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg ar systemau electronig canolog y Coleg ac yn cael eu diweddarau gan y Swyddog Datblygu chynrychiolwyr Grŵp Llywio'r Gymraeg – Safonau.

4. Sgiliau Iaith Gymraeg Staff

Yn 20/21 roedd y Coleg yn cyflogi 537 o aelodau staff.

Ym mis Mawrth 2021, dosbarthwyd yr arolwg sgiliau iaith Gymraeg ar-lein i'r holl staff ei gwblhau er mwyn diweddarau proffil sgiliau iaith Gymraeg y Coleg sydd yn cael ei gadw yng nghofnodion Adnoddau Dynol. Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod 6% o'r staff naill ai'n siaradwyr Cymraeg rhugl neu â sgiliau Cymraeg uwch. Mae'r proffil sgiliau iaith Gymraeg cyffredinol fel a ganlyn:

- Nid oes gan 11% o'r staff unrhyw sgiliau Cymraeg (Lefel 00)
- Mae 46% o'r staff yn gallu cyfarch yn Gymraeg (Lefel 01)
- Mae 23% o'r staff ar lefel Mynediad (Lefel 1)
- Mae 11% o'r staff ar lefel Sylfaen (Lefel 2)
- Mae 3% o'r staff ar lefel Ganolradd (Lefel 3)
- Mae 3% o'r staff ar lefel Uwch (Lefel 4)
- Mae 3% o'r staff yn rhugl

Gyda pharhad y cynllun Cymraeg Gwaith i'w bumed flwyddyn, y gobaith yw y bydd cynnydd yn

sgiliau Cymraeg staff y Coleg yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

5. Hyfforddiant

O ran darparu hyfforddiant corfforaethol drwy gyfrwng y Gymraeg i staff yn y meysydd canlynol: recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, gweithdrefnau cwyno/disgyblu ac ymdrin â'r cyhoedd, fel y nodir yn y Safonau, ni ddarparwyd unrhyw hyfforddiant yn ystod y cyfnod adrodd yn y meysydd hyn.

Er nad yw'n ofyniad adrodd ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi bod 28 aelod o staff wedi cymryd rhan mewn amrywiol hyfforddiant yn ymwneud â methodolegau dysgu dwyieithog/iaith Gymraeg yn 20/21.

6. Recriwtio

Yn 2020/21 hysbysebwyd 74 o swyddi newydd neu wag yn ddwyieithog (gan gynnwys rhai yn cael eu hail-hysbysebu), pob un yn datgan bod croeso arbennig i ymgeiswyr â sgiliau Cymraeg ar bob lefel a bod y Coleg yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â recriwtio yn ddwyieithog ac mae'r ffurflenni cais yn gofyn i unigolion gadarnhau a ydynt am ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad.

Fel rhan o'r broses recriwtio, ac fel un o ofynion y Safonau, disgwylir i reolwyr asesu pob swydd o ran yr angen am sgiliau Cymraeg. Nodwyd bod angen rhoi mwy o sylw i'r agwedd hon ac ers hynny ychwanegwyd canllawiau pellach at y ffurflen gwneud cais am swydd newydd/wag i reolwyr er mwyn eu cefnogi yn eu hasesiad.

Roedd nifer y swyddi a oedd wedi'u categorio fel rhai y mae angen sgiliau Cymraeg arnynt yn ystod 20/21 fel a ganlyn:

Sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol	3
Sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol	67
Angen dysgu sgiliau Cymraeg	4
Sgiliau iaith Gymraeg ddim yn angenrheidiol	0

Er bod pob swydd newydd a gwag yn datgan bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol, mae'r Coleg yn cydnabod yn llawn yr angen i ailedrych ar yr agwedd hon a gweithio gyda rheolwyr i benderfynu pa lefelau sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer rhai swyddi, gan roi mwy o ffocws ar Gymraeg llafar yn hytrach na Chymraeg ysgrifenedig, yn ei ymgais i ddenu mwy o staff sy'n siarad Cymraeg. Mae cynyddu gallu'r Coleg i allu darparu'n ddwyieithog yn parhau i fod yn her oherwydd prinder cenedlaethol gweithwyr dwyieithog. Fodd bynnag, mae hyn yn gofyn am ystyriaeth ofalus yng ngoleuni'r bwriad i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sir a bydd carfan gyntaf Ysgol Caer Elen o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn dechrau ar addysg ôl-16 ym mis Mehefin 2023 ac mae'n siŵr y byddant yn gosod eu golygon ar ddod i'r Coleg fel llwybr dilyniant posibl. Mae'r Coleg yn ymwybodol iawn o'r angen i ddarparu dilyniant a pharhad ieithyddol i ddysgwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog a bydd angen iddynt blaengynllunio ar gyfer hyn.

7. Cwynion

Yn dilyn y cyfarfod adborth blynyddol gyda Swyddog Cyswllt Comisiynydd y Gymraeg, cynghorwyd y Coleg i lunio Gweithdrefn Gwyno ar sut y bydd y Coleg yn ymdrin â chwynion yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg, fel un o ofynion y Safonau. Lluniwyd a chyhoeddwyd hyn ar wefan y Coleg i aelodau'r cyhoedd [gael mynediad ato](#).

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.

8. Casgliad ac Argymhellion

Mae'n amlwg yn yr adroddiad hwn fod y Coleg yn symud ymlaen yn barhaus gyda'i ddatblygiad dwyieithog, o fewn ei ddarpariaeth cwricwlwm ac wrth ddarparu gwasanaethau. Mae'n gweithio'n galed i gydymffurfio â'r Safonau; mae wedi gwneud cynnydd da iawn gyda'i farchnata dwyieithog, gan sicrhau bod yr holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae dewis iaith yn bresennol yn y broses ymgeisio a chofrestru dysgwyr a hefyd ym mhroses recriwtio staff y Coleg. Mae'n parhau i fod yn llwyddiannus iawn o ran sicrhau cyllid gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn creu darpariaeth a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg/dwyieithog newydd a chyffrous i'w dysgwyr a hefyd cyllid Cymraeg Gwaith i gefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Mae'r Coleg yn gwybod ble y mae o ran cydymffurfio ac mae wedi nodi'r canlynol fel meysydd i roi sylw arbennig iddynt yn ystod 2021/22:

- Ailedrych ar yr asesiad o anghenion y Gymraeg mewn swyddi, gan ganolbwyntio ar Gymraeg llafar er mwyn denu ymgeiswyr sydd â sgiliau Cymraeg Lefel 3+ i alluogi'r Coleg i gynyddu ei gapasiti dwyieithog. Ystyried hefyd y posibilrwydd o gynnig prentisiaethau i siaradwyr Cymraeg er mwyn mynd i'r afael â phrinder staff dwyieithog
- Gwneud gwelliannau i'r system diwtorial er mwyn sicrhau bod dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn gallu cael mynediad at diwtorialau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn hawdd
- Datblygu gwefan ddwyieithog y Coleg ymhellach; sicrhau bod tudalennau Cymraeg y wefan yn gywir, yn gyfredol; yn cynnwys sbardunau rhagweithiol i annog ymwelwyr sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg a gwella'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg ar y wefan
- Parhau i ddatblygu cynnwys Cymraeg ar fewnrwyd y Coleg, gan roi mwy o ddewis iaith i staff a dysgwyr
- Adnewyddu'r hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg ar gyfer staff presennol a newydd e.e. cyflwyno e-fodiwl, er mwyn atgyfnerthu gwybodaeth a dealltwriaeth o ofynion y Safonau

Bydd yr argymhellion hyn yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau gweithredu priodol ar gyfer y Gymraeg.

I gloi, gyda'r cynlluniau gweithredu cyfadranol ac adrannol bellach wedi'u sefydlu a chylch gorchwyl y Grŵp Llywio – Safonau yn ei le i adolygu cynnydd y cynlluniau hyn, mae'r Coleg o'r farn bod ganddo broses glir a chadarn. Bydd yn ei alluogi i fonitro cydymffurfiaeth yn effeithiol a gyrru datblygiadau i sicrhau gwell gwasanaethau Cymraeg, gyda'r effaith o fwy o ymgysylltu â'r Gymraeg a thwf y Gymraeg, yn unol â dyheadau strategaeth 'Cymraeg 2050 – miliwn o siaradwyr Cymraeg'.